

PROSIECT FFORDD DDOSBARTHU'R MORFA

Pam mae'n digwydd?

Dyluniwyd y ffordd newydd i roi hwb i adfywio Coridor Glannau Tawe o Stadiwm Liberty i Heol New Cut. Bydd y llwybr yn dilyn hen linell Camlas Tawe cyn cysylltu â Heol y Morfa a gaiff ei diweddarau fel rhan o'r cynigion.

Caiff busnesau a phreswylwyr y newyddion diweddaraf am gynllun Ffordd Ddosbarthu'r Morfa drwy ffrydiau twitter a facebook y cyngor, papurau newydd lleol, gorsafoedd radio lleol a gwefan ddynodedig www.abertawe.gov.uk/ffordddosbarthurmorfa

Byddwn yn dosbarthu llythyrau i aelwydydd a dargedir a gosodir paneli gwybodaeth ger y safle.





Pryd mae'n digwydd?

Cam 1 – Cyffordd newydd wrth Heol y Morfa a Heol New Cut, yn cael ei chwblhau ym mis Mawrth 2014

Cam 2 – O Lwybr Bysus Express Glandŵr ger Clwb Cymdeithasol Glandŵr i hen iard Hastie, i'r gogledd o Heol y Morfa. Bwriedir cyflwyno'r cam hwn rhwng mis Ionawr 2015 a mis Hydref 2015. Ni fydd caniatâd i gerbydau gysylltu drwy Ffordd bresennol y Morfa nes i gynllun y Ffordd Ddosbarthu gael ei gwblhau.

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu fesul cam i gyd-fynd â chynigion ailddatblygu ar hyd y ffordd ac alinio â rhaglen ariannu fesul cam. Ariennir y cynllun gan Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru a chyfraniadau gan ddatblygwyr tir cyfagos.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Abertawe canol y ddinas
Swansea city centre




Beth yw'r manteision?

Bydd y ffordd yn rhoi mynediad i safleoedd datblygu newydd, yn agor mynediad i lan yr afon, yn cyflwyno gwelliannau amgylcheddol ac yn gwella cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr rhwng cymunedau cyferbyn. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y cynllun yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion ansawdd aer yn ardal yr Hafod drwy leihau'r traffig sy'n teithio drwy'r ardal. Mae manteision eraill yn cynnwys:

- cyfleusterau gwell i feicwyr
- cysylltiadau ag ardal Gwaith Copr hanesyddol yr Hafod
- cysylltiadau â glannau Tawe
- annog ailddatblygu coridor y glannau

Bydd y cynllun yn ehangu'r fenter Brics a Morter sy'n cael ei datblygu yn yr awdurdod i annog manteision cymdeithasol a darparu manteision ychwanegol i'r gymuned leol.



Gwaith atgyweirio wal restredig

Faint o darfu a geir?

Gan y gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith o bell o rwydwaith presennol y briffordd ac ardaloedd preswyl, gwneir pob ymdrech i weithio gyda'r gymuned a busnesau lleol i leihau tarfu posib. Mae'r llwybr wedi'i alinio'n ofalus i ddiogelu safle Gwaith Copr yr Hafod a chaiff y gwaith ei ddatblygu gyda chymorth archaeolegydd i sicrhau y cofnodir ac y cedwir unrhyw ganfyddiadau. Yn ddiweddar, cwblhawyd gwaith manwl i sefydlu strwythurau rhestredig gerllaw.

Rhoddir rhybudd ymlaen llaw am unrhyw waith sy'n tarfu'n sylweddol arnoch.

